

Defnyddio contractwyr

Canllaw cryno



Mae hyn yn fersiwn
Cwmraeg o'r daflen
INDG368(rev1), a
gyhoeddwyd 06/12 yw hwn

Mae'r daflen hon wedi ei hanelu at fusnesau sy'n defnyddio contractwyr. Mae contractwr yn unrhyw un y byddwch yn gofyn iddo/iddi wneud gwaith i chi nad yw'n gyflogai.

Mae'r canllaw yn rhoi gwybod i chi beth sy'n rhaid i chi ei wneud i gydymffurfio â chyfraith iechyd a diogelwch pan fyddwch yn defnyddio contractwyr. Fodd bynnag, nid yw'n berthnasol i weithwyr dros dro neu weithwyr asiantaeth - mae yna wybodaeth fwy penodol amdanynt ar www.hse.gov.uk/workers/agencyworkers.htm.

Mae'r canllaw yn cynnwys:

- Astudiaethau achos sy'n dangos pwysigrwydd difrifoldeb gwaith y contractwyr.
- Blychau 'Ystyriwch!' sy'n rhoi gwybod i chi pryd fyddwch chi angen cymryd camau ychwanegol o bosibl a darparu ffynonellau canllaw manylach a chyngor penodol i'r diwydiant.

Bydd rhestr wirio ar ddiwedd y daflen yn eich helpu i ofyn y cwestiynau cywir a blaenoriaethau'ch gweithredoedd.

Eich cyfrifoldebau

Mae gennych chi a'r contractwr a ddefnyddiwch gyfrifoldebau dan gyfraith iechyd a diogelwch. Mae angen i bawb ddilyn y rhagofalon cywir er mwyn lleihau'r risgiau o beryglon yn y gweithle i gyflogaion a'r cyhoedd. Gwnewch yn siŵr bod pawb yn deall eu cyfraniad o ran sicrhau iechyd a diogelwch.

Beth sydd angen i chi ei wneud

Nodi'r gwaith

Nodwch bob agwedd o'r gwaith yr hoffech i'r contractwr ei wneud. Ystyriwch arwyddocâd iechyd a diogelwch y gwaith. Cofiwch, bydd y lefel o risg yn ddibynnol ar natur a chymhlethdod y gwaith. Dylech ddarparu'r wybodaeth hon i contractwyr posibl a sicrhau eu bod yn gwybod ac yn deall y perfformiad a ddisgwyliwch ganddynt. Gallech gynnwys yr wybodaeth hon yn y fanyleb swydd.

Ystyriwch!

- Os yw'r gwaith yn waith adeiladu, fel y cleient mae gennych ddyletswyddau dan y Rheoliadau Adeiladu (Cynllunio a Rheoli) 2007. Gallwch gael gwybod mwy yn nhrefn yr HSE *Want construction work done safely? A quick guide for clients on the Construction (Design and Management) Regulations 2007*.
- Os ydych chi'n gwmni cemegol bach i ganolig, mae yna ganllaw manylach yn *Managing contractors: A guide for employers*.

Dewis contractwr addas

Bydd angen i chi fodloni'ch hun y gall y contractwr a ddewiswch wneud y gwaith yn ddiogel a heb risgiau i iechyd. Mae hyn yn cynnwys gwneud ymholiadau ynglŷn â chymhwyster y contractwr – a oes ganddynt y cyfuniad priodol o sgiliau, arbenigedd a gwybodaeth? Bydd graddfa'r cymhwyster sydd ei angen yn ddibynnol ar y gwaith. Felly hefyd, dylai lefel yr ymholiadau a wnewch gael ei bennu gan y lefel o risgiau a chymhlethdod y gwaith.

Dyma enghreifftiau o gwestiynau y gallech eu gofyn I contractwyr posibl:

- Pa drefniadau fydd gennych chi ar gyfer rheoli'r gwaith? Er enghraifft, pwy fydd yn gyfrifol, sut fydd y gwaith yn cael ei oruchwylio, pa wiriadau fyddwch chi'n eu gwneud ar offer a deunyddiau craidd ac ati?
- A fyddwch chi'n defnyddio isgcontractwyr ac os felly, sut fyddwch chi'n gwirio eu bod yn gymwys? Bydd lefel cymhwyster ar gyfer isgcontractwyr yn ddibynnol ar risg a chymhlethdod y gwaith.
- Beth yw eich perfformiad iechyd a diogelwch diweddar? Er enghraifft, faint o ddamweiniau ac achosion o salwch ydych chi wedi eu cael, a yw'r HSE wedi gweithredu yn eich erbyn o gwbl?
- A oes gennych chi bolisi iechyd a diogelwch ysgrifenedig? (Dim ond os cyflogir pump neu fwy o bobl fydd hyn yn ofyniad.)
- Allwch chi ddarparu asesiadau risg presennol ar gyfer gwaith tebyg? Unwaith eto, mae asesiadau risg ysgrifenedig yn ofynnol dan y gyfraith os cyflogir pump neu fwy o bobl yn unig.
- Pa gymwysterau, sgiliau a phrofiad sydd gennych chi yn y math hwn o waith?
- Pa wybodaeth a hyfforddiant iechyd a diogelwch ydych chi'n ei ddarparu i'ch gweithwyr?
- Os yw'n ofynnol, a oes gennych chi Yswiriant Gofynnol Atebolrwydd Cyflogwr?

Bydd y cwestiynau hyn yn eich helpu i weld a yw'r contractwr yn cydymffurfio â'u dyletswyddau dan gyfraith iechyd a diogelwch. Yna gallwch benderfynu faint o dystiolaeth sydd ei angen i gefnogi'r hyn a ddywedwyd wrthy'ch chi.

Dyma gwestiynau eraill y gallech eu gofyn i'ch helpu i benderfynu pa contractwr i'w ddefnyddio:

- A oes ganddynt unrhyw asesiad annibynnol o'u cymhwyster?
- A ydynt yn aelod o gymdeithas fasnach neu gorff proffesiynol?
- A fyddant yn cynhyrchu datganiad dull diogelwch ar gyfer y gwaith? Nid yw datganiad dull diogelwch yn ofynnol dan y gyfraith. Fodd bynnag, mae'n disgrifio'n rhesymegol sut yn union i gyflawni swydd yn ddiogel a heb risgiau i iechyd. Mae'n cynnwys yr holl risgiau a nodwyd yn yr asesiad risg a'r mesurau sy'n ofynnol i reoli'r risgiau hynny. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer cynllunio ac yn darparu adnoddau priodol i'r gwaith.

Astudiaeth achos

Roedd triniwr coed yn torri cangen pan syrthiodd i ardd cymydog a difrodi panel ffens. Awr yn gynharach roedd y cymydog wedi bod yn yr ardd yn chwarae gyda'i phlentyn 20 mis oed. Nid oedd gan y triniwr coed y cymwysterau i ddefnyddio llif gadwyn na'r sgil i gyflawni'r gwaith yn ddiogel. Pe byddai'r datblygwr eiddo a gyflogodd y triniwr coed wedi gwirio ei fod yn gymwys i gyflawni'r gwaith, byddai'r digwyddiad hwn wedi ei osgoi. Peidiwch â thybio bod rhywun yn gymwys, gwiriwch eich hun.

Asesu risgiau'r gwaith

Mae angen i chi a'r contractwr ystyried y gwaith arfaethedig:

- Beth all niweidio pobl?
- Pwy allai gael ei niweidio a sut?
- Sut fyddwch chi'n rheoli'r risgiau?

Ceir gwybodaeth fanylach ar asesu risg a rheolaeth ar www.hse.gov.uk/risk/index.htm.

Dylech eisoes fod wedi cyflawni asesiad risg ar gyfer gweithgareddau gwaith eich busnes eich hun. Gwnewch yn siŵr bod eich asesiad yn cwmpasu risgiau i gontractwyr o'ch busnes (e.e. asbestos, cerbydau ar y safle). Rhaid i'r contractwr asesu'r risgiau ar gyfer y gwaith a gontractiwyd ac yna rhaid i'r ddau ohonoch ddod ynghyd i ystyried unrhyw risgiau o ganlyniad i waith eich gilydd allai effeithio ar iechyd a diogelwch y gweithlu neu unrhyw un arall.

Mae angen i chi ystyried unrhyw risgiau i'ch gweithwyr a'r cyhoedd, o ganlyniad i gael contractwyr ar y safle. Hefyd, gwnewch yn siŵr eich bod yn cytuno i'r mesurau sydd eu hangen i reoli risg gyda'r contractwr cyn i'r gwaith gychwyn.

Ystyriwch!

- Cynhwyswch risgiau iechyd, megis lefelau sŵn neu fod yn agored i sylweddau niweidiol, yn ogystal â risgiau diogelwch.
- Unwaith y byddwch wedi cytuno ar gamau i reoli risgiau, byddwch yn glir pwy fydd yn gwneud beth a phryd. Ffordd hawdd o gyfathrebu a chofnodi eich casgliadau yw defnyddio'r templed asesiad risg (www.hse.gov.uk/risk/risk-assessment-and-policy-template.doc).
- Mae yna ofynion penodol ar gyfer rhai gweithfannau ble mae'r risg yn uwch. Am ragor o wybodaeth, ewch i dudalennau diwydiannau'r HSE ar www.hse.gov.uk/guidance/industries.htm.

Astudiaeth achos

Cafodd gweithwraig ei lladd wedi iddi gael ei tharo gan gerbyd a oedd yn cael ei weithredu gan gontractwr. Nid oedd y cyflogwr na'r contractwr wedi nodi llwybrau i gerddwyr i'w cadw ar wahân i gerbydau oedd yn symud. Hefyd, nid oedd y contractwr wedi rhoi hyfforddiant digonol i'w yrwyr i sicrhau eu bod yn gweithredu'r cerbydau yn ddiogel. Dylai'r cyflogwr fod wedi nodi'r risgiau o gael y contractwr ar y safle a chytuno ar fesurau i reoli'r risgiau hynny cyn cychwyn y gwaith.

Darparu gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant

Mae angen i chi a'r contractwr gyfathrebu â'ch gilydd trwy gydol y broses. Gwnewch yn siŵr bod gan y contractwr a'i gyflogeion wybodaeth ar:

- risgiau iechyd a diogelwch y gallent eu hwynebu;
- mesurau a weithredir i ddelio â'r risgiau hynny;
- eich gweithdrefnau argyfwng.

Dylai'r wybodaeth a ddarparwch fod ar ffurf sy'n hawdd i'w ddeall.

Felly hefyd, rhaid i chi ddarparu cyfarwyddiadau clir, gwybodaeth a hyfforddiant digonol ar gyfer eich cyflogeion eich hun.

Ystyriwch!

- Am ragor o gyngor, gweler taflen yr HSE *Health and safety training: What you need to know*.
- Talwch sylw penodol i'r rhai nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt – gweler tudalennau gwe gweithwyr mudol yr HSE am ragor o wybodaeth, ar www.hse.gov.uk/migrantworkers.

Astudiaeth achos

Derbyniodd gweithiwr fferm anafiadau mewnol a llosgiadau difrifol o sioc drydanol pan gododd bibell ddyfrhau a honno'n dod i gysylltiad â llinellau pŵer 33,000 o foltiau uwchben. Nid oedd y cyflogwr wedi trafod presenoldeb y llinellau uwchben nac wedi nodi ffordd ddiogel o symud y pibellau dyfrhau. Dylai'r cyflogwr fod wedi rhoi gwybod i'r contractwr am y risgiau a wynebhai a chytuno ar ddull o weithio cyn cychwyn y gwaith. Peidiwch â thybïo y bydd contractwyr yn ymwybodol o'r risgiau i gyd, hyd yn oed os ydynt yn ymddangos i fod yn amlwg i chi.

Cydweithredu a chydlynu gyda'r contractwr

Rhaid i chi a'r contractwr gydweithio a chydlynu'ch gweithgareddau, i sicrhau y gellir gwneud y gwaith yn ddiogel a heb risgiau i iechyd. Un ffordd o wneud hyn yw cynnal cyfarfodydd rheolaidd o hyd. Bydd y lefel o gydweithrediad a chydlyniad sydd ei angen yn ddibynol ar:

- y gwaith i'w wneud;
- y nifer o gontractwyr (neu isgontractwyr) sy'n cymryd rhan;
- y risgiau dan sylw.

Astudiaeth achos

Cafodd gyrrwr cludo ei anafu pan gafodd ei daro gan wagen fforch godi wrth iddo gerdded i mewn i ffatri i weld ble ddylai adael ei lwyth. Fe ddylai'r cyflogwr fod wedi nodi'r risgiau i'r gyrrwr a rhoi cyfarwyddiadau clir iddo.

Ymgynghori â'r gweithlu

Rhaid i chi ymgynghori â'ch cyflogeion ar faterion iechyd a diogelwch. Bydd cynnwys eich gweithwyr yn eich helpu i wneud gwell penderfyniadau ar y risgiau gwirioneddol a'r mesurau i'w rheoli. Cynhwyswch eich gweithwyr yn y broses ac ymgynghori â nhw ar y canlynol:

- sut fydd gwaith y contractwr yn effeithio ar eu hiechyd a diogelwch;
- gwybodaeth a hyfforddiant;
- sicrhau eu bod yn gwybod sut i nodi unrhyw bryderon sydd ganddynt ynglŷn â'r contractwyr a'u gwaith;

Astudiaeth achos

Cafodd coes contractwr a oedd yn gweithio mewn cwmni papur newydd ei dal mewn peiriant, ac yna bu'n rhaid tynnu'r goes i ffwrdd. Roedd wedi dringo ar y cludydd i symud rîl oedd wedi mynd yn sownd a chafodd ei goes ei dal rhwng y rholer a'r cludydd metel astellog oedd yn symud. Dylai'r cyflogwr fod wedi nodi'r nodi risgiau'r gwaith a darparu system ddiogel i'w gyflawni. Pe byddai'r cyflogwr wedi ymgynghori â'i gyflogeion, byddai'r dull hwn o weithio wedi ei nodi a rheoliadau wedi eu sefydlu i atal y ddamwain.

Rheoli a goruchwyllo'r gwaith

Penderfynwch beth ydych chi angen ei wneud i reoli gwaith contractwyr. Dylai'r mesurau a sefydlwch fod yn gyson â'r lefel o risg, h.y. po fwyaf yw'r risg, y mwyaf sydd angen i chi wneud.

Ystyriwch:

- Pwy fydd yn gyfrifol am y gwaith a beth ydych chi'n disgwyl iddyn nhw wneud?
- Pwy fydd yn goruchwyllo'r gwaith a sut?
- Sut fydd y gwaith yn cael ei wneud a pha ragofalon a gymerir?
 - Pa gyfarpar a ddylid, neu na ddylid, gweithio arno/ei ddefnyddio?
 - Pa gyfarpar amddiffynnol personol i'w ddefnyddio a phwy fydd yn ei ddarparu?
 - Beth yw'r gweithdrefnau gweithio, gan gynnwys unrhyw ganiatadau i weithio?
- Beth yw'r trefniadau ar gyfer stopio'r gwaith os oes pryderon difrifol am iechyd a diogelwch?

Unwaith bydd y gwaith wedi cychwyn, gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw llygad ar sut mae'r gwaith yn mynd yn erbyn yr hyn a gytunwyd. Gallwch wneud hyn drwy:

- wiriadau rheolaidd – holwch eich hun 'a yw'r mesurau rheoli yn gweithio?'
- ymchwilio os bydd pethau'n mynd o chwith, e.e. achosion agos, damweiniau, afiechyd. Ystyriwch 'beth aeth o'i le a beth allwn ni wneud i'w atal rhag digwydd eto?'

Wedi gorffen y gwaith, bydd yna fanteision o ran adolygu a dysgu o unrhyw wersi i weld a ellir gwella perfformiad yn y dyfodol.

Astudiaeth achos

Cyflogwyd contractwyr i osod cwter newydd ar adeilad 7m o uchder. Gallai gweithwyr gyrraedd y to o dŵr symudol o flaen yr adeilad, ond doedd yna ddim cyfarpar i'w hatal rhag syrthio yn ôl yn y cefn ble roedd y gwaith yn digwydd. Fe ddylai'r cyflogwr fod wedi gwneud penderfyniad o ran sut i gyflawni'r gwaith, pa offer i'w ddefnyddio a phwy fyddai'n ei ddarparu cyn dechrau'r gwaith. Peidiwch â thybio y bydd gan y contractwr y cyfarpar priodol i gyflawni'r gwaith yn ddiogel.

Ystyriwch!

Mae'r canllaw hwn yn darparu gwybodaeth sylfaenol ar reoli iechyd a diogelwch wrth ddefnyddio contractwyr. Ceir canllaw pellach ar reoli iechyd a diogelwch yn *Successful health and safety management*.

Rhestr wirio

| Cwestiynau y dylech eu gofyn: | Do/ Naddo |
|--|----------------------|
| A ydych wedi nodi pob agwedd ar y gwaith yr hoffech i'r contractwr ei wneud? | |
| A ydych wedi cynnwys goblygiadau iechyd a diogelwch y gwaith yn y fanyleb swydd? | |
| A yw'n waith saernïaeth neu waith adeiladu? Os felly, a ydych chi'n gwybod beth arall sydd angen i chi wneud i gydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu (Cynllunio a Rheoli) | |
| A ydych wedi gwneud ymholiadau ynghylch cymhwyster y contractwr? Os felly, a ydych wedi gwirio am dystiolaeth cyn iddynt gael y swydd? | |
| A ydych wedi delio â risgiau'r gwaith a chytuno ar gamau i reoli'r risgiau gyda'r contractwr? | |
| A ydych wedi darparu gwybodaeth i'r contractwr a'i gyflogeion ar y risgiau? | |
| A ydych wedi darparu eich gweithdrefnau argyfwng i'r contractwr a'i gyflogeion? | |
| A ydych wedi darparu cyfarwyddiadau, gwybodaeth a hyfforddiant digonol i'ch cyflogeion eich hun? | |
| A ydych wedi sefydlu trefniadau gyda'r contractwr i gydlynu'ch gweithgareddau yn ystod y gwaith? | |
| A ydych wedi ymgynghori â'ch cyflogeion ynglŷn â'r gwaith a sut y gallant nodi unrhyw bryderon? | |
| A ydych wedi nodi pwy fydd yn gyfrifol am y gwaith a beth fyddwch chi'n disgwyl iddyn nhw wneud? | |
| A ydych wedi nodi pwy fydd yn goruchwyllo'r gwaith a sut? | |
| A ydych wedi sefydlu trefniadau i gadw llygad ar sut mae'r gwaith yn mynd yn erbyn yr hyn a gytunwyd gyda'r contractwr? | |
| A ydych wedi cytuno sut fydd y gwaith yn cael ei adolygu i ddysgu unrhyw wersi ohono? | |

Eisiau gwybod mwy?

Consulting workers on health and safety: Safety Representatives and Safety Committees Regulations 1977 (as amended) and Health and Safety (Consultation with Employees) Regulations 1996 (as amended). Approved Codes of Practice and Guidance (Second edition) L146 HSE Books 2012 ISBN 978 0 7176 6461 0
www.hse.gov.uk/pubns/books/L146.htm

Health and safety training: A brief guide Taflen INDG345(rev3) HSE Books 2012
www.hse.gov.uk/pubns/indg345.htm

Managing contractors: A guide for employers HSG159 (Second edition) HSE Books 2011 ISBN 978 0 7176 6436 8
www.hse.gov.uk/pubns/books/hsg159.htm

Managing health and safety in construction. Construction (Design and Management) Regulations 2007. Approved Code of Practice L144 HSE Books 2007 ISBN 978 0 7176 6223 4
www.hse.gov.uk/pubns/books/l144.htm

Successful health and safety management HSG65 (Second edition) HSE Books 1997 ISBN 978 0 7176 1276 5
www.hse.gov.uk/pubns/books/hsg65.htm

Want construction work done safely? A quick guide for clients on the Construction (Design and Management) Regulations 2007 Taflen INDG411 HSE Books 2007
www.hse.gov.uk/pubns/indg411.pdf

Am ragor o wybodaeth ar asesiadau risg, gweler www.hse.gov.uk/risk/index.htm

Mwy o wybodaeth

Am wybodaeth ynglŷn ag iechyd a diogelwch, neu i adrodd ar anghysondebau neu wallau yn y canllaw hwn, ewch i www.hse.gov.uk. Gallwch weld canllaw'r HSE ar-lein ac archebu canllawiau am bris o'r wefan. Mae cyhoeddiadau am bris yr HSE hefyd ar gael o siopau llyfrau.

Cyhoeddir y canllaw hwn gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Nid yw'n orfodol i ddilyn y canllaw, oni bai y nodir hynny'n benodol, ac rydych yn rhydd i weithredu fel arall. Ond os byddwch yn dilyn y canllaw, byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith. Mae arolygwyr iechyd a diogelwch yn ceisio sicrhau cydymffurfiaid ar gyfraith a gallant gyfeirio at y canllaw hwn.

Mae'r daflen hon ar gael mewn pecynnau wedi eu prisio gan HSE Books, ISBN 978 0 7176 6467 2. Gellir gweld fersiwn y we yn www.hse.gov.uk/pubns/indg368.htm.

Ⓜ

© *Hawlfraint y Goron* Os ydych yn dymuno ailddedfnyddio'r wybodaeth hon, ewch i www.hse.gov.uk/copyright.htm am fanylion. Cyhoeddwyd gyntaf 03/13.